



Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dydd/Dyddiad: 12 Mawrth 2013

Amser: 10:00 - 12:00 o'r gloch

Lleoliad: Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys,
Canolfan Reoli Strategol ystafell 2

Yn bresennol:-

NH (Cadeirydd)	Ymgynghorydd Annibynnol
Helen Morgan Howard	Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – HDP
MB	Ymgynghorydd Annibynnol
JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
BS	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
PR	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
PL	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
NM	Ymgynghorydd Annibynnol
HL	Ymgynghorydd Annibynnol
Jeff Davies (JD)	(cyflwyniad yn unig) Rheolwr Prosiect, HDP
Miranda Bryant (MEB) (cofnodion)	Cymorth Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg - HDP

Ymddiheuriadau:-

AH	Ymgynghorydd Annibynnol
BH	Ymgynghorydd Annibynnol (mater parcio yn y Pencadlys)
SR	Ymgynghorydd Annibynnol (wedi ymddiswyddo)
CG	Ymgynghorydd Polisi, SCHTh
NC	Ymgynghorydd Annibynnol

1. Materion Hygyrchedd

Rhoddodd Jeff Davies gyflwyniad i'r grŵp mewn perthynas â chymhorthion gweledol Kwikpoint ar gyfer yr heddlu. Rhoddwyd copi o Kwikpoint i bawb ac esboniodd y gellir defnyddio'r cymhorthion gweledol hyn pan fod gan rywun broblem cyfathrebu, boed y broblem yn un sy'n ymwneud ag iaith neu'n broblem sy'n ymwneud â lleferydd. Mae'n gysyniad syml a gall swyddogion heddlu ei ddefnyddio i gael syniad o destun sgwrs - damwain, ymosodiad neu ddigwyddiad ayyb. Mae'r cymhorthion gweledol yn costio £13.99 yr un. Yn anffodus, nid yw'r cymorth gweledol ar gael fel ap ar hyn o bryd.

Holodd JD y grŵp am y ffordd orau o werthuso'r cymhorthion gweledol hyn. Dywedodd NM fod y lluniau'n rhy fach.

Cytunodd y grŵp fod gan y cymorth gweledol lawer o wybodaeth ac y gallai hynny beri mwy o ofid i rai.

Awgrymodd MB y dylem gysylltu â phrifysgol i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn creu ap hygyrchedd. Mae prifysgolion o hyd yn chwilio am brosiectau newydd.

Awgrymodd HL y gallai'r rhaglen 'google translate' gael ei gosod ar beiriannau tabled pob swyddog.

Awgrymodd PS fod cymhorthion gweledol yn well gyda lluniau, nid geiriau. Hefyd, dylai'r cymorth gweledol fod â lluniau mwy o faint. Dylai gael un tudalen ar gyfer pob pwnc/digwyddiad, er enghraifft, ffrwydrad nwy/bom.

Awgrymodd HMH fformat hawdd ei ddarllen. Defnyddir y fformat hwn yn aml ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu. Medrwn edrych ar ddatblygu ein fformat hawdd ei ddarllen sylfaenol ein hun.

Hysbysodd JD y grŵp fod swyddog heddlu'n dysgu iaith arwyddion Prydain ar hyn o bryd.

Hysbysodd JD y grŵp fod cysylltiadau da'n cael eu sefydlu â Chlwb Byddar Arberth ac y bydd hyn yn cael ei estyn i glybiau byddar eraill.

Gwnaed yr argymhellion canlynol gan y grŵp:-

- a. Rhannwch y cymorth gweledol, gwnewch y lluniau'n fwy, a sicrhewch fod gennych 1 tudalen ar gyfer pob pwnc. Mae'n ormod yn ei ffurf bresennol, yn arbennig pan fod rhywun mewn gofid.
- b. Ystyriwch osod ap 'google translate' ar beiriant tabled pob swyddog.
- c. Ewch â'r cymorth gweledol i Glwb Byddar Arberth a gofynnwch iddynt am eu barn.

Gweithredu:- JD i symud yr holl argymhellion uchod ymlaen.

3. Cofnodion/Camau Gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2013 yn gofnod gwir a chywir.

Cam Gweithredu 1	Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i ddarparu adborth i Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â'r meysydd maen nhw'n teimlo y bu cynnydd mewn blynyddoedd diweddar o ran materion cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn Heddlu Dyfed-Powys. Noder: Ni ddylai'ch cyfrif geiriau fod yn fwy na 75 gair. Adborth i'w dderbyn erbyn y cyfarfod Grŵp Ymgynghorol Annibynnol nesaf.	Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol
Cam Gweithredu 2	Y Prif Arolygydd Westlake, Canolbwyntio ar y Dinesydd, i ffonio JJ a thrafod cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth.	Prif Arolygydd Westlake
Cam Gweithredu 3	Y Prif Arolygydd Westlake i ddarparu rhestr o gynlluniau Gwarchod Cymdogaeth i aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.	Prif Arolygydd Westlake
Cam Gweithredu 4	Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â grwpiau cymunedol sydd eisiau derbyn cyflwyniad ar y broses stopio a chwilio. Cytunodd y grŵp y gellid cysylltu â grwpiau megis Merched Y Wawr, Sefydliad y Merched a'r Grŵp Awtistiaeth, Aberystwyth. Awgrymodd PS y gellid cysylltu ag ysgolion byddar hefyd.	Rhyddhawyd yr eitem.
Cam Gweithredu 5	Yn y digwyddiad nesaf ar gyfer pobl ifainc, bydd HMM yn ceisio adborth ynglŷn â chanfyddiad pobl ifainc o rybudd.	HMM
Cam Gweithredu 6	CL i wirio pa un ai a oes cyflwyniad mewn perthynas â rhybuddion yn cael ei roi mewn ysgolion, ac ar effeithiau hirdymor cael eich hun i helynt.	CL
Cam Gweithredu 7	HMM/CG i drefnu cyfarfodydd craffu ar y broses Stopio a Chwilio ar gyfer aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Trafodwyd yn y prif Agenda – gweler eitem 4.	Rhyddhawyd yr eitem.

Cam Gweithredu 8	Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol sydd â diddordeb mewn ymuno â'r panel craffu ar Stopio a Chwilio i fynegi eu diddordeb wrth HMH.	Rhyddhawyd yr eitem.
---------------------	--	----------------------

4. Hap Samplo Stopio a Chwilio

Rhoddodd HMH ddiweddariad i'r grŵp mewn perthynas â chraffu ar y broses Stopio a Chwilio. Bellach, mae ffurflen electronig ar gyfer cofnodi pob gweithdrefn stopio a chwilio. Gwahoddodd HMH aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i hap samplo cofnodion y mae swyddogion yn eu cadw a gwirio'u bod nhw'n cael eu cadw'n gywir. Rydym eisiau i aelodau edrych ar y rhesymau a'r seiliau dros chwilio.

Cytunodd y grŵp y dylai Hap Samplo Stopio a Chwilio ddigwydd ar sail chwarterol, ac y byddai NH yn cynnal y ddwy sesiwn nesaf ynghyd ag aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Cytunodd y grŵp y dylid cynnal y sesiynau cyntaf yn y Pencadlys, ac yna efallai y bydd y grŵp yn edrych ar argaeledd gorsaf leol er eu cyfleustra.

Cytunodd y grŵp y byddai craffu ar weithdrefnau Stopio a Chwilio yn digwydd ar y dyddiadau canlynol:-

Dyddiad/Amser	Enw
10 Ebrill 2014 – 2:30y.p. (amser wedi'i newid o 10y.b. i 2:30y.p.)	NH MB PS PR
10 Gorffennaf 2014 - 10y.b.	NH NM MB PR
Hydref 2014 – 10y.b. Dyddiad i'w gadarnhau.	DT (Dyddiau lau yn unig) JJ - i'w gadarnhau HL – i'w gadarnhau
Ionawr 2015 Dyddiad ac amser i'w cadarnhau.	Cynrychiolwyr i'w cadarnhau.

5. Aelodaeth o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Aeth NH drwy'r rhestr o aelodau cyfredol y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol a chafwyd trafodaeth mewn perthynas ag amser a lleoliad cyfarfodydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol. Cytunodd y grŵp y dylid amrywio amser a lleoliad y cyfarfod er mwyn darparu ar gyfer pob aelod.

Cytunodd y grŵp y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y pencadlys yn ystod y prynhawn ac y byddai'r un ar ôl hynny'n cael ei gynnal yn Llandrindod. Mae SCHTh

yn sefydlu'i phanel preswylwyr ei hun. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn gweithredu fel cyfaill beirniadol ar gyfer yr heddlu. Cytunodd y grŵp eu bod bellach mewn sefyllfa i recriwtio aelodau newydd.

Awgrymodd HMH y dylem fynd at bobl i ofyn iddynt fod yn aelodau o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn y Sioe Frenhinol nesaf. Cynhelir y Sioe Frenhinol yn ystod trydedd wythnos mis Gorffennaf. Cytunodd y grŵp i ddatblygu pecyn aelodaeth ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol y gellir ei roi i unigolion gadw.

Yn y Sioe Frenhinol, os yw pobl sy'n byw y tu allan i ardal Dyfed-Powys yn mynegi diddordeb mewn bod yn aelod o Grŵp Ymgynghorol Annibynnol, byddwn yn anfon eu manylion ymlaen i'r heddlu perthnasol.

Cododd rhai aelodau bryderon nad yw'r cyfarfodydd hyder a chydaddoldeb lleol yn cael eu cynnal bellach. Bydd HMH yn codi'r mater ag Arolygwyr partneriaethau. Cytunodd y grŵp y gellid gofyn i aelodau'r grŵp cydraddoldeb a hyder ymuno â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Awgrymodd PS y dylid creu posteri a'u gosod mewn gorsafoedd lleol er mwyn hysbysebu am aelodau ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Cam Gweithredu:- HMH/NH i ddatblygu pecyn aelodaeth ar gyfer y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

Cam Gweithredu:- HMH i drafod cyfarfodydd Hyder a Chydaddoldeb gydag Arolygwyr Partneriaethau.

Cam Gweithredu:- HMH i drefnu bod posteri'n cael eu creu a'u dosbarthu i orsafoedd lleol a'u gosod mewn mannau cyhoeddus.

6. Unrhyw fusnes arall

Dywedodd PS ei fod yn torri porfa adref pan gerddodd swyddog cefnogi cymunedol yr heddlu heibio. Dywedodd PS helo wrth y swyddog, ond ni chymerodd y swyddog unrhyw sylw a cherddodd yn ei flaen. Roedd yn ymddangos nad oedd y swyddog eisiau sgwrsio.

Cam Gweithredu:- Bydd HMH yn pasio'r adborth hwn ymlaen.

Nodwyd fod Sam Reynolds wedi ymddiswyddo o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol.

7. Dyddiad/Amser y cyfarfod nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener 6 Mehefin 2014 am 1 o'r gloch ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys.

Cam Gweithredu:- MEB i drefnu cyfarfod mis Medi yng Nghanolfan Reoli Powys, Llandrindod.